# Etholiadau'r Senedd 2026

# Cyfarwyddiadau i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol

Rhoddir y cyfarwyddiadau hyn gan y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) o dan Adrannau 20B ac 20C Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 ("Deddf 2013"), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024").

O dan y ddeddfwriaeth hon, caiff y BRhE roi cyfarwyddiadau yn ysgrifenedig i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol ynglŷn ag arfer swyddogaethau'r swyddogion yn gysylltiedig ag etholiadau'r Senedd.

Fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, mae'r Cyfarwyddiadau wedi bod yn destun ymgynghori ffurfiol â'r Comisiwn Etholiadol. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol â Swyddogion Canlyniadau, hefyd. Mae'r cyfarwyddiadau terfynol a gyhoeddwyd yn adlewyrchu materion a amlygwyd a sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriadau hynny.

Cymeradwyodd y BRhE y set derfynol hon o gyfarwyddiadau ar 3 Hydref 2025. Mae'r tabl isod yn datgan y cyfarwyddiadau'n llawn gyda sylwadau byr lle gallai eglurhad fod yn ddefnyddiol.

| | Pwnc | Cyfarwyddyd |
|---|---|---|
| **1** | **Papur Pleidleisio**<br><br>*Lliw Papurau Pleidleisio* | **(a) Yn amodol ar gyfarwyddyd 1(b) isod, mae'n rhaid i bapurau pleidleisio fod yn wyn ac mae'n rhaid i bapurau pleidleisio a dendrwyd fod yn binc.**<br><br>**(b) Ceir defnyddio papurau pleidleisio a/neu bapurau pleidleisio a dendrwyd â lliwiau eraill:**<br><br>**i. yn etholaethau Caerdydd Penarth a/neu Gaerdydd Ffynnon Taf, am resymau hwylustod gweinyddol sy'n deillio o'r ffaith bod yr etholaethau hynny'n rhannu swyddog canlyniadau;**<br><br>**ii. pan ailgyhoeddir papurau pleidleisio am unrhyw reswm; a/neu**<br><br>**iii. mewn amgylchiadau eithriadol eraill pan fydd y swyddog canlyniadau o'r farn y dylid defnyddio lliwiau eraill am resymau anghenraid gweinyddol neu er mwyn osgoi dryswch ymhlith etholwyr, er enghraifft er mwyn rheoli materion trawsffiniol.**<br><br>*Y papur pleidleisio yw'r brif ddogfen ar gyfer pleidleiswyr yn yr etholiad. Mae hyn yn darparu papur cyson i bob pleidleisiwr.* |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Hysbysiadau**<br><br>*Cyhoeddi Hysbysiad o Etholiad* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau gyhoeddi'r Hysbysiad o Etholiad yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 23 Mawrth 2026.**<br><br>*Mae hyn yn darparu dull cyson o gyhoeddi'r Hysbysiad a hefyd yn golygu bod y cyfnod enwebu ar gyfer pleidiau ac ymgeiswyr yn gyson, at ei gilydd, ledled Cymru.* |
| **3** | **Cardiau Pleidleisio**<br><br>*Dyddiad anfon cardiau pleidleisio* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod cardiau pleidleisio'r prif argraffiad yn cael eu hanfon at etholwyr erbyn 3 Ebrill 2026 fan bellaf.**<br><br>*Bydd sicrhau bod mwyafrif helaeth y cardiau pleidleisio'n cyrraedd yn ystod yr un wythnos yn darparu cysondeb ledled Cymru.* |
| **4** | **Ail Hysbysiad Addasu Etholiad Interim**<br><br>*Dyddiad Cyhoeddi* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Cofrestru Etholiadol gyhoeddi'r Ail Hysbysiad Addasu Etholiad Interim rhwng 21 Ebrill a 24 Ebrill 2026.**<br><br>*Yn sgil cyhoeddi'r Ail Hysbysiad Addasu Etholiad Interim yn agos i'r dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am bleidlais drwy'r post, gall ail gyhoeddiad o bleidleisiau drwy'r post gynnwys yr etholwyr hynny sydd wedi gwneud cais am bleidlais drwy'r post ers y cyhoeddiad cyntaf, gan sicrhau eu bod yn cael eu pecynnau post cyn gynted â phosibl ac nad oes rhaid iddynt aros tan y cyhoeddiad olaf.* |
| **5** | **Cadarnhau a Chyfrif**<br><br>*Amseru'r Cyfrif* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau sicrhau bod y blychau pleidleisio cyntaf yn cael eu hagor ar ôl 9:00am a dim hwyrach nag 11:00am ar ddydd Gwener 8 Mai 2026 i ganiatáu ar gyfer dechrau cadarnhau a chyfrif. Ni fydd pleidleisiau'n cael eu cyfrif dros nos, ond mae'n rhaid i'r broses gadarnhau/cyfrif ym mhob etholaeth fod yn mynd rhagddi erbyn 11:00am ar 8 Mai 2026.**<br><br>**Yn yr holl amgylchiadau pan fydd y Swyddog Canlyniadau o'r farn y dylai'r broses gadarnhau ddigwydd dros nos oherwydd rheidrwydd gweinyddol, er enghraifft er mwyn rheoli materion trawsffiniol, caiff wneud hynny.**<br><br>*Mae'r Cyfarwyddyd yn ffurfioli'r safbwynt na fydd pleidleisiau'n cael eu cyfrif dros nos, ond yn sicrhau na fydd oedi diangen, gyda phob sesiwn Gyfrif yn mynd rhagddi erbyn 11:00am.*<br><br>*Nid yw'r Cyfarwyddyd yn mynnu bod yr holl flychau pleidleisio wedi cael eu derbyn yn y Ganolfan Gyfrif/Canolfannau Cyfrif erbyn 11:00am ar 8 Mai. Y cyfan y mae'n ei fynnu yw bod blychau'n dechrau cael eu hagor erbyn 11:00am.*<br><br>*Nid yw'r Cyfarwyddyd yn atal Swyddogion Canlyniadau rhag gwneud gwaith paratoi yn syth ar ôl i'r pôl gau. Nid yw cadarnhau/cyfrif y pleidleisiau ar 8 Mai yn atal cysoni papurau heb eu defnyddio neu a ddifethwyd a gwirio rhifyddeg ar Gyfrifon Papurau Pleidleisio ar ddiwedd pôl/dros nos. Fodd bynnag, atgoffir Swyddogion Canlyniadau os byddant yn gwirio papurau wedi'u difetha neu heb eu defnyddio, neu'n dechrau'r cam cadarnhau, ar ddiwedd pôl/dros nos, bydd angen caniatáu i ymgeiswyr, asiantiaid,* |

| | | |
|---|---|---|
| | | *arsylwyr ac ati arsylwi. Mae'r angen i sicrhau tryloywder, craffu a derbyn yn hollbwysig, felly byddai angen rhoi gwybod i ymgeiswyr, asiantiaid, arsylwyr ac ati am fanylion unrhyw weithgareddau o'r fath.* |
| **6** | **Pleidleisiau drwy'r Post**<br><br>*Chwiliad gan y Post Brenhinol* | **Mae'n rhaid i Swyddogion Canlyniadau wneud trefniadau gyda'r Post Brenhinol i chwilio'r swyddfa ddosbarthu/swyddfeydd dosbarthu ar gyfer eu hetholaeth ar y diwrnod pleidleisio er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n bosibl, bod yr holl becynnau post yn y system yn cael eu hadfer.**<br><br>*Bydd y BRhE yn cysylltu'n ganolog â'r Post Brenhinol, ond bydd angen i'r trefniadau lleol ar gyfer derbyn y chwiliad gael eu gwneud gan bob Swyddog Canlyniadau gyda'i gynrychiolydd yn y Post Brenhinol. Dylid gwneud pob ymdrech i adfer yr holl bleidleisiau a fwrwyd er budd pleidleiswyr.* |

**Amserlen Etholiad: Etholiad y Senedd**
**7 Mai 2026**

Y diwrnodau a ddiystyrir wrth gyfrifo'r amserlen yw dydd Sadwrn, dydd Sul, Dydd Gwener y Groglith, Dydd Llun y Pasg, gwyliau banc ac unrhyw ddiwrnod a bennir ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

Sylwer y gallai'r amserlen newid os pennir diwrnodau ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

| **Digwyddiad** | **Diwrnodau gwaith cyn pleidlais yn ôl y gyfraith (terfyn amser os nad yw'n ganol nos)** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Cyhoeddi hysbysiad o etholiad | Dim hwyrach na 25 niwrnod | w/c 23 Mawrth **(Cyfarwyddyd)** |
| Terfyn amser ar gyfer danfon papurau enwebu | 19 diwrnod (4pm) | 4pm ar ddydd Iau 9 Ebrill |
| Terfyn amser ar gyfer tynnu enwebiad yn ôl | 19 diwrnod (4pm) | 4pm ar ddydd Iau 9 Ebrill |
| Cyhoeddi'r hysbysiad addasu etholiad interim cyntaf | 19 diwrnod | Dydd Iau 9 Ebrill |
| Terfyn amser ar gyfer hysbysu am benodi asiantiaid etholiad | 18 niwrnod (4pm) | 4pm ar ddydd Gwener 10 Ebrill |
| Cyhoeddi datganiad ynghylch y pleidiau a'r unigolion a enwebwyd, gan gynnwys hysbysiad o'r bleidlais a lleoliad gorsafoedd pleidleisio | Dim hwyrach na 18 niwrnod (4pm) | Dim hwyrach na 4pm ar ddydd Gwener 10 Ebrill |
| Terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau i gofrestru | 12 niwrnod | Dydd Llun 20 Ebrill |
| Terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau newydd am bleidlais drwy'r post a phleidlais bost drwy ddirprwy, ac ar gyfer newidiadau i bleidleisiau post neu drwy ddirprwy presennol | 11 diwrnod (5pm) | 5pm ar ddydd Mawrth 21 Ebrill |
| Cyhoeddi'r ail hysbysiad addasu interim | Rhwng 18 niwrnod a 6 diwrnod | Rhwng dydd Mawrth 21 a dydd Gwener 24 Ebrill (Cyfarwyddyd) |
| Terfyn amser ar gyfer derbyn ceisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy (nid pleidlais bost drwy ddirprwy na phleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng) | 6 diwrnod (5pm) | 5pm ar ddydd Mawrth 28 Ebrill |

| **Digwyddiad** | **Diwrnodau gwaith cyn pleidlais (terfyn amser os nad yw'n ganol nos)** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Cyhoeddi'r hysbysiad addasu etholiad terfynol | 5 niwrnod | Dydd Mercher 29 Ebrill |
| Terfyn amser ar gyfer hysbysu ynghylch penodi asiantiaid pleidleisio a chyfrif | 5 niwrnod | Dydd Mercher 29 Ebrill |
| **DIWRNOD PLEIDLEISIO** | 0 (7am tan 10pm) | **7am tan 10pm ar Ddydd Iau 7 Mai** |
| Y tro olaf y gall etholwyr wneud cais am gael pleidlais newydd drwy'r post yn lle un a ddifethwyd neu a gollwyd | 0 (5pm) | **5pm** ar ddydd Iau 7 Mai |
| Terfyn amser ar gyfer ceisiadau am bleidlais drwy ddirprwy mewn argyfwng | 0 (5pm) | 5pm ar ddydd Iau 7 Mai |
| Y cyfle olaf i newid y gofrestr o ganlyniad i wall clercyddol neu apêl llys | 0 (9pm) | 9pm ar ddydd Iau 7 Mai |
| Cadarnhau a Chyfrif y Pleidleisiau | +1 | O 9am ar ddydd Gwener 8 Mai (cyfarwyddyd) |